*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 202X Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 202X

DRAFFT

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn sefydlu cynllun trwyddedu mandadol i unigolion sy'n dymuno rhoi triniaethau arbennig (fel y'u rhestrir yn adran 57 o'r Ddeddf) yng Nghymru.

Mae adran 69 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i driniaeth arbennig, a roddir yng nghwrs busnes, gael ei rhoi mewn mangre neu mewn cerbyd sydd wedi ei chymeradwyo neu ei gymeradwyo gan awdurdod lleol (oni bai bod y fangre honno neu'r cerbyd hwnnw wedi ei hesemptio neu ei esemptio).

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn nodi o dan ba amgylchiadau y datgymhwysir y gofyniad bod rhaid i driniaeth arbennig gael ei rhoi mewn mangre neu mewn cerbyd sydd wedi ei chymeradwyo neu ei gymeradwyo gan awdurdod lleol.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer ceisiadau am dystysgrifau cymeradwyo gan gynnwys y meini prawf y mae rhaid eu bodloni er mwyn i gais am dystysgrif gymeradwyo gael ei ganiatáu, ac ynghylch ffurf a chynnwys ffurflen gais (fel y'i nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn).

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys tystysgrif

gymeradwyo (fel y'i nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn).

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r amodau cymeradwyo mandadol cymwys y mae tystysgrif gymeradwyo yn ddarostyngedig iddynt (fel y'u nodir yn Atodlenni 3 a 4 i'r Rheoliadau hyn).

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer amrywio tystysgrif gymeradwyo.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer adnewyddu tystysgrif gymeradwyo.

Mae Rhan 7 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwneud cais am gopi o dystysgrif gymeradwyo.

Mae Rhan 8 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer ffioedd mewn perthynas â thystysgrifau cymeradwyo.

Mae Rhan 9 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch yr hysbysiad o derfynu tystysgrif gymeradwyo yn wirfoddol. Mae hyn yn gymwys pan gaiff deiliad tystysgrif roi hysbysiad i awdurdod lleol o dan adran 72 o'r Ddeddf ei fod yn dymuno terfynu tystysgrif gymeradwyo yn wirfoddol.

Mae Rhan 10 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd y mae'n ofynnol i awdurdod lleol roi hysbysiad i geisydd neu ddeiliad tystysgrif ei fod yn bwriadu gwrthod cais, a'r hawl i'r ceisydd neu'r deiliad tystysgrif hwnnw gyflwyno sylwadau i'r awdurdod lleol.

Mae Rhan 11 yn gwneud darpariaeth ynghylch apelau mewn cysylltiad â cheisiadau, gan gynnwys yr hawl i apelio i'r llys ynadon neu i Lys y Goron.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

DRAFT

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 202X Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 202X

*Gwnaed* ***

*Yn dod i rym* ***

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 69(8) a (9), 70(3), (7), (8) a (9), 71(4), 72(5) ac 76(4) a (5) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 123(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 202X.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 202X.

---

(**1**) 2017 dccc 2. *Gweler* adran 124(1) o'r Ddeddf honno am y diffiniad o "rheoliadau".

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 123 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).



DRAFFT

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "amodau cymeradwyo mandadol" ("*mandatory approval conditions*") yr ystyr a roddir yn adran 70 o'r Ddeddf ac fel y'u nodir yn Atodlen 3 neu 4 i'r Rheoliadau hyn;

mae i "amodau trwyddedu mandadol cymwys" ("*applicable mandatory licensing conditions*") yr ystyr a roddir yn adran 63(7) o'r Ddeddf;

mae i "arolygiad cydymffurfedd" ("*compliance inspection*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 4(4) ac mae i'w ddarllen yn unol â hynny;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw'r awdurdod lleol sy'n caniatáu cais am dystysgrif gymeradwyo, ac sy'n dyroddi tystysgrif o'r fath;

ystyr "cais" ("*application*"), oni phennir fel arall, yw cais—

(a) am dystysgrif gymeradwyo,

(b) i amrywio tystysgrif gymeradwyo,

(c) i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo,

(d) am gopi o dystysgrif gymeradwyo,

yn ôl y digwydd;

ystyr "cais am drwydded triniaeth arbennig" ("*application for a special procedure licence*") yw cais—

(a) am drwydded triniaeth arbennig,

(b) i amrywio trwydded triniaeth arbennig,

(c) i adnewyddu trwydded triniaeth arbennig,

(d) am gopi o drwydded triniaeth arbennig;

ystyr "ceisydd" ("*applicant*") yw person sy'n gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo;

mae i "cerbyd" ("*vehicle*") yr ystyr a roddir yn adran 94(1) o'r Ddeddf;

ystyr "cleient" ("*client*") yw person y rhoddir y driniaeth arbennig iddo;

ystyr "cyfnod cymeradwyo" ("*approval period*") yw'r cyfnod y mae'r dystysgrif gymeradwyo yn awdurdodi rhoi triniaeth arbennig ynddo mewn mangre neu mewn cerbyd fel y'i nodir yn adran 70(5) o'r Ddeddf;

mae i "deiliad trwydded" ("*licence holder*") yr ystyr a roddir yn adran 59(8) o'r Ddeddf;

ystyr "deiliad tystysgrif" ("*certificate holder*") yw'r person y mae awdurdod lleol wedi cymeradwyo ei gais am dystysgrif gymeradwyo o dan adran 70 o'r Ddeddf ac y bydd ei enw wedi ei restru ar y dystysgrif gymeradwyo;

mae i "dyddiad cymeradwyo" ("*approval date*") yr un ystyr ag yn adran 70(5) o'r Ddeddf;

DRAFT

ystyr “Dyfarniad Lefel 2 a reoleiddir” (“*regulated Level 2 Award*”) yw Dyfarniad Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig, sef cymhwyster nad yw’n radd a reoleiddir gan Gymwysterau Cymru(**1**);

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;

ystyr “ffi am gais” (“*application fee*”) yw’r ffi a ragnodir gan yr awdurdod lleol i fynd gyda chais;

ystyr “ffi gydymffurfio” (“*compliance fee*”) yw’r ffi y caniateir ei chodi gan yr awdurdod lleol o dan adran 76(2) o’r Ddeddf;

ystyr “gweithfan” (“*workstation*”) yw’r man, y gofod neu’r parth o fewn y man gwaith triniaethau arbennig sy’n cynnwys—

(a) gwely, cadair neu gyffelyb, y mae cleient yn eistedd neu’n gorwedd arno neu arni i gael triniaeth arbennig a roddir gan ddeiliad trwydded,

(b) cadair neu stôl y mae deiliad y drwydded yn eistedd arni i roi’r driniaeth arbennig,

(c) troli a ddefnyddir ar gyfer gosod a storio’r offerynnau a’r cynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded i roi’r driniaeth arbennig,

(d) bin offer miniog;

ystyr “man gwaith triniaethau arbennig” (“*special procedures work area*”) yw man neu ystafell lle y mae triniaethau arbennig yn cael eu rhoi ac mae’n cynnwys unrhyw—

(a) basnau golchi dwylo,

(b) biniau gwastraff,

(c) gweithfannau,

(d) cyfleusterau eraill i gefnogi’r gwaith o roi’r driniaeth arbennig;

mae i “mangre” (“*premises*”) yr ystyr a roddir yn adran 94(1) o’r Ddeddf;

ystyr “meini prawf adnewyddu” (“*renewal criteria*”) yw’r meini prawf y mae rhaid eu bodloni er mwyn caniatáu i dystysgrif gymeradwyo gael ei hadnewyddu;

ystyr “meini prawf cymeradwyo” (“*approval criteria*”) yw’r meini prawf y mae rhaid eu bodloni er mwyn i dystysgrif gymeradwyo gael ei rhoi;

ystyr “rhif y drwydded” (“*licence number*”) yw’r rhif a roddir gan yr awdurdod lleol i’r drwydded triniaeth arbennig sy’n unigryw i’r drwydded honno ac a bennir ynddi;

(**1**) Fe’i sefydlwyd o dan adran 2 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (dccc 5).

DRAFT

ystyr “rhif y dystysgrif gymeradwyo” (“*approval certificate number*”) yw’r cyfeirnod a roddir gan yr awdurdod lleol i’r dystysgrif gymeradwyo sy’n unigryw i’r dystysgrif honno ac a bennir ynddi;

ystyr “sicrwydd yswiriant” (“*insurance cover*”) yw polisi yswiriant dilys a ddyroddwyd gan yswiriwr awdurdodedig i yswirio’r ceisydd mewn cysylltiad ag unrhyw atebolrwydd cyhoeddus a allai ddigwydd yn y fangre neu’r cerbyd yng nghwrs rhoi triniaeth arbennig;

mae i “triniaeth arbennig” (“*special procedure*”) yr ystyr a roddir yn adran 57 o’r Ddeddf;

mae i “trwydded triniaeth arbennig” (“*special procedure licence*”) yr ystyr a roddir yn adran 59 o’r Ddeddf;

mae i “tystysgrif gymeradwyo” (“*approval certificate*”), onid ymddengys bwriad i’r gwrthwyneb, yr un ystyr ag yn adran 70 o’r Ddeddf;

ystyr “tystysgrif gymeradwyo dros dro” (“*temporary approval certificate*”) yw cymeradwyaeth sy’n awdurdodi rhoi triniaeth arbennig mewn mangre neu gerbyd a gymeradwywyd am gyfnod nad yw’n hwy na saith niwrnod.

DRAFT

## Rhan 1

## Mangreoedd a Cherbydau sydd wedi eu Hesemptio

**Mangreoedd neu gerbydau sydd wedi eu hesemptio at ddibenion adran 69(8) o’r Ddeddf**

**3.** Nid yw’r gofynion yn adran 69(2) o’r Ddeddf yn gymwys mewn cysylltiad â thriniaeth aciwbigo a roddir at ddibenion darparu gofal lliniarol.

## Rhan 2

## Ceisiadau am dystysgrif gymeradwyo

**Y meini prawf cymeradwyo cymwys ar gyfer rhoi tystysgrif gymeradwyo**

**4.**—(1) Mae’r meini prawf cymeradwyo y mae rhaid eu bodloni wedi eu nodi ym mharagraffau (2) i (4).

(2) O ran y ceisydd—

(i) rhaid iddo fod yn 18 oed neu’n hŷn,

(ii) rhaid iddo gyflwyno cais yn unol â rheoliad 6.

(3) O ran y cais y cyfeirir ato ym mharagraff (2), rhaid i'r canlynol ddod gydag ef—

(i) y ffi am gais (os oes un),

(ii) plan o'r fangre neu'r cerbyd y mae'r cais yn ymwneud â hi neu ag ef, sy'n cydymffurfio â pharagraff (5),

(iii) tystiolaeth o sicrwydd yswiriant dilys a ddelir gan y ceisydd mewn cysylltiad â'r fangre neu'r cerbyd,

(iv) tystiolaeth, a ddelir gan y ceisydd, bod Dyfarniad Lefel 2 a reoleiddir wedi ei gwblhau yn llwyddiannus.

(4) Rhaid i'r fangre neu'r cerbyd y mae'r cais yn ymwneud â hi neu ag ef fod yn ddarostyngedig i arolygiad cydymffurfedd gan yr awdurdod lleol sy'n dyfarnu arno, a rhaid i'r fangre neu'r cerbyd basio'r arolygiad yn foddhaol.

(5) Rhaid i'r plan y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(ii) gynnwys (pan fo'n gymwys)—

(a) y mynedfeydd i'r fangre neu'r cerbyd a'r allanfeydd ohoni neu ohono,

(b) mesuriadau a siâp unrhyw ystafell yn y fangre neu'r cerbyd,

(c) y mynedfeydd i unrhyw ystafell sydd yn y fangre neu'r cerbyd, a'r allanfeydd o'r ystafell honno,

(d) lleoliad unrhyw—

(i) sinciau cyfarpar,

(ii) biniau offer miniog,

(iii) ystafelloedd staff,

(iv) mannau, cyfleusterau neu ystafelloedd storio ar gyfer cynhyrchion a/neu gyfarpar,

(v) toiledau,

(vi) mannau neu ystafelloedd aros,

(vii) basnau golchi dwylo,

(viii) biniau gwastraff,

(ix) ffenestri, a

(x) gweithfannau.

**Y meini prawf cymeradwyo cymwys ar gyfer rhoi tystysgrif gymeradwyo dros dro**

**5.** Pan fo ceisydd yn dymuno gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo dros dro, rhaid i'r ceisydd—

(a) cydymffurfio â'r meini prawf cymeradwyo a nodir yn rheoliad 4, a

(b) gwneud cais o leiaf 28 o ddiwrnodau gwaith cyn y dyddiad cymeradwyo arfaethedig ar gyfer y dystysgrif gymeradwyo dros dro.

### Cais am dystysgrif gymeradwyo

**6.**—(1) Rhaid i bob cais i ddyroddi tystysgrif gymeradwyo ymwneud â naill ai un fangre neu un cerbyd.

(2) Rhaid i gais am dystysgrif gymeradwyo fod ar y ffurf, a chynnwys yr wybodaeth, a bennir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(3) Bwriedir i'r testun sydd wedi ei gynnwys mewn bachau petryal yn y ffurflen yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn fod yn ganllawiau ar gyfer llenwi'r ffurflen.

(4) Caniateir gwneud cais naill ai ar ffurf papur neu drwy ei gyflwyno yn electronig.

(5) Mae'r ffi am gais y cyfeirir ati yn rheoliad 4(3)(i) i'w gosod gan yr awdurdod lleol gan roi sylw i'r costau y mae'r awdurdod yn mynd iddynt neu y disgwylir i'r awdurdod fynd iddynt mewn cysylltiad ag ymdrin â cheisiadau.

(6) Nid yw cais i'w drin fel pe bai wedi ei wneud hyd nes bod yr awdurdod lleol wedi cael y ffi am gais mewn arian cliriedig.

(7) Ar unrhyw adeg ar ôl cael cais ond cyn dyfarnu arno, caiff awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ddarparu iddo unrhyw wybodaeth bellach y mae'r awdurdod yn ystyried ei bod yn angenrheidiol er mwyn ei alluogi i ddyfarnu ar y cais.

(8) Caiff yr wybodaeth bellach y cyfeirir ati ym mharagraff (7) gynnwys unrhyw wybodaeth y mae'r awdurdod lleol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol at ddiben gwirio hunaniaeth y ceisydd.

(9) Os bydd ceisydd yn methu â darparu gwybodaeth y gofynnwyd amdani o dan baragraff (7) neu (8), caiff yr awdurdod lleol wrthod bwrw ymlaen â'r cais.

### Cymeradwyo cais am dystysgrif gymeradwyo at ddibenion adran 70(3)(b) o'r Ddeddf

**7.** Os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod y meini prawf cymeradwyo a nodir yn rheoliad 4 (neu reoliad 5 yn ôl y digwydd) wedi eu bodloni, rhaid iddo ganiatáu'r cais am dystysgrif gymeradwyo a dyroddi tystysgrif gymeradwyo i'r ceisydd, sy'n cymeradwyo mangre neu gerbyd mewn cysylltiad â rhoi triniaeth arbennig.

### Gwrthod cais am dystysgrif gymeradwyo at ddibenion adran 70(7)(b) o'r Ddeddf

**8.** Os nad yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod y meini prawf cymeradwyo a nodir yn rheoliad 4 (neu reoliad 5 yn ôl y digwydd) wedi eu bodloni, rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i'r ceisydd bod y cais am dystysgrif gymeradwyo wedi ei wrthod i'r graddau y

DRAFT

mae'n ymwneud â chymeradwyo'r fangre honno neu'r cerbyd hwnnw.

# Rhan 3

## Ffurf a chynnwys y dystysgrif gymeradwyo

### Ffurf a chynnwys y dystysgrif gymeradwyo

**9.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r paragraffau a ganlyn o'r rheoliad hwn, mae tystysgrif gymeradwyo i fod ar y ffurf a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(2) Bwriedir i'r testun sydd wedi ei gynnwys mewn bachau petryal yn y ffurflen yn Atodlen 2 fod yn ganllawiau.

(3) Rhaid atodi copi o'r amodau cymeradwyo mandadol cymwys a nodir yn naill ai Atodlen 3 neu 4 i'r Rheoliadau hyn i'r dystysgrif gymeradwyo.

# Rhan 4

## Amodau cymeradwyo mandadol

### Amodau cymeradwyo mandadol cymwys ar gyfer tystysgrif gymeradwyo

**10.** Mae tystysgrif gymeradwyo a roddir o dan adran 70 o'r Ddeddf yn ddarostyngedig i'r amodau cymeradwyo mandadol a nodir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

### Amodau cymeradwyo mandadol cymwys ar gyfer tystysgrif gymeradwyo dros dro

**11.** Mae cymeradwyaeth a roddir o dan adran 70 o'r Ddeddf, y mae tystysgrif gymeradwyo dros dro wedi ei dyroddi mewn perthynas â hi, yn ddarostyngedig i'r amodau cymeradwyo mandadol a nodir yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn.

# Rhan 5

## Amrywio tystysgrif gymeradwyo

### Amrywio tystysgrif gymeradwyo

**12.**—(1) Caiff awdurdod lleol, ar gais i'r perwyl hwn gan ddeiliad tystysgrif, amrywio tystysgrif gymeradwyo a ddyroddwyd ganddo.

(2) Rhaid i bob cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo ymwneud â naill ai un fangre neu un cerbyd.

(3) Caiff effaith amrywiad (ymhlith pethau eraill)—

DRAFT

(a) ychwanegu neu ddileu disgrifiad o driniaeth arbennig y mae'r dystysgrif gymeradwyo yn awdurdodi iddi gael ei rhoi,

(b) awdurdodi newid enw deiliad y dystysgrif neu enw cofrestredig y busnes sy'n gysylltiedig â'r dystysgrif gymeradwyo,

(c) awdurdodi i driniaeth arbennig gael ei rhoi mewn mangre neu mewn cerbyd sydd wedi cael unrhyw newid neu unrhyw newidiadau i'r strwythur neu'r dyluniad.

(4) Ni chaniateir i dystysgrif gymeradwyo gael ei hamrywio o dan y rheoliad hwn er mwyn—

(a) trosglwyddo'r dystysgrif gymeradwyo o ddeiliad y dystysgrif i unigolyn arall,

(b) cwtogi neu estyn y cyfnod cymeradwyo,

(c) terfynu'r dystysgrif gymeradwyo.

**Cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo**

**13.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4), (5) a (6), o ran cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo—

(a) mae i'w wneud ym mha ffordd bynnag sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol o dan sylw,

(b) mae i'w wneud naill ai ar ffurf papur neu drwy ei gyflwyno yn electronig,

(c) mae'r ffi am gais (os oes un) i ddod gydag ef.

(2) Mae'r ffi am gais y cyfeirir ati ym mharagraff (1)(c) i'w gosod gan yr awdurdod lleol gan roi sylw i'r costau y mae'r awdurdod yn mynd iddynt neu y disgwylir i'r awdurdod fynd iddynt mewn cysylltiad ag ymdrin â cheisiadau i amrywio.

(3) Nid yw cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo i'w drin fel pe bai wedi ei wneud hyd nes bod yr awdurdod lleol wedi cael y ffi am y cais.

(4) Os bydd cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo yn ymwneud ag unrhyw newid(iadau) i strwythur neu ddyluniad y fangre neu'r cerbyd, rhaid iddo gynnwys—

(a) manylion y newidiadau arfaethedig sydd i'w gwneud yn y fangre neu yn y cerbyd, a

(b) copi wedi ei ddiweddaru o'r plan sy'n ofynnol yn rheoliad 4(3)(ii), sy'n dangos yn glir y newidiadau arfaethedig hynny.

(5) Ar unrhyw adeg ar ôl adolygu cais ond cyn dyfarnu arno at y diben a nodir yn rheoliad 12(3)(c), caiff awdurdod lleol gynnal arolygiad cydymffurfedd o'r fangre neu'r cerbyd y mae'r cais yn ymwneud â hi neu ag ef.

(6) Ar unrhyw adeg ar ôl adolygu cais ond cyn dyfarnu arno o dan baragraff (1), caiff awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y dystysgrif ddarparu iddo unrhyw wybodaeth bellach y mae'r awdurdod yn

DRAFT

ystyried ei bod yn angenrheidiol er mwyn ei alluogi i ddyfarnu ar y cais.

(7) O ran cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo drwy ychwanegu disgrifiad o driniaeth arbennig y mae'r dystysgrif gymeradwyo i awdurdodi iddi gael ei rhoi—

(a) rhaid iddo bennu'r driniaeth o dan sylw, a

(b) mae i'w drin at ddibenion y rheoliad hwn fel pe bai'n gais i ddyroddi tystysgrif gymeradwyo sy'n awdurdodi i'r driniaeth honno gael ei rhoi (ac mae dyddiad yr amrywio i'w drin, ar gyfer cymhwyso'r rheoliad hwn mewn cysylltiad â'r driniaeth honno, fel dyddiad dyroddi tystysgrif gymeradwyo sy'n awdurdodi i'r driniaeth gael ei rhoi).

(8) Nid yw paragraff (7)(b) yn gymwys at ddibenion dyfarnu ar y dystysgrif gymeradwyo.

## Rhan 6

### Adnewyddu tystysgrif gymeradwyo

**Y meini prawf adnewyddu cymwys ar gyfer adnewyddu tystysgrif gymeradwyo**

**14.**—(1) Mae'r meini prawf adnewyddu y mae rhaid eu bodloni wedi eu nodi ym mharagraffau (2) i (4).

(2) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif gyflwyno cais yn unol â rheoliad 15 i'r awdurdod lleol sy'n dyroddi.

(3) O ran y cais y cyfeirir ato ym mharagraff (2), rhaid i'r canlynol ddod gydag ef—

(a) y ffi am gais (os oes un),

(b) tystiolaeth o sicrwydd yswiriant dilys.

(4) Rhaid i'r fangre neu'r cerbyd y mae'r cais yn ymwneud â hi neu ag ef fod yn ddarostyngedig i arolygiad cydymffurfedd gan yr awdurdod lleol sy'n dyfarnu arno, a rhaid i'r fangre neu'r cerbyd basio'r arolygiad yn foddhaol.

**Cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo**

**15.**—(1) Caiff awdurdod lleol, ar gais gan ddeiliad y dystysgrif, adnewyddu tystysgrif gymeradwyo.

(2) Rhaid i bob cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo ymwneud â naill ai un fangre neu un cerbyd.

(3) Mae cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo i'w wneud i'r awdurdod lleol a roddodd y dystysgrif gymeradwyo.

(4) O ran cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo—



DRAFT

(a) mae i'w wneud ym mha ffordd bynnag sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol o dan sylw,

(b) mae i gynnwys pa wybodaeth bynnag sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol o dan sylw,

(c) mae i'w wneud naill ai ar ffurf papur neu drwy ei gyflwyno yn electronig.

(5) Mae'r ffi am gais y cyfeirir ati yn rheoliad 14(3)(a) i'w gosod gan yr awdurdod lleol, gan roi sylw i'r costau y mae'r awdurdod yn mynd iddynt neu y disgwylir i'r awdurdod fynd iddynt mewn cysylltiad ag ymdrin â cheisiadau i adnewyddu.

(6) Rhaid i gais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo—

(a) cydymffurfio â'r meini prawf adnewyddu a nodir yn rheoliad 14,

(b) cael ei wneud o leiaf 28 o ddiwrnodau gwaith cyn i'r dyddiad cymeradwyo a restrir ar y dystysgrif gymeradwyo ddod i ben,

(c) cynnwys manylion unrhyw newidiadau arfaethedig sydd i'w gwneud i'r dystysgrif gymeradwyo,

(d) cynnwys rhif tystysgrif gymeradwyo'r fangre neu'r cerbyd y mae'r cais yn ymwneud â hi neu ag ef.

(7) Nid yw cais i'w drin fel pe bai wedi ei wneud hyd nes bod yr awdurdod lleol wedi cael y ffi am y cais.

(8) Ar unrhyw adeg ar ôl cael cais ond cyn dyfarnu arno, caiff awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y dystysgrif ddarparu iddo unrhyw wybodaeth bellach y mae'r awdurdod yn ystyried ei bod yn angenrheidiol er mwyn ei alluogi i ddyfarnu ar y cais.

**Cymeradwyo cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo**

**16.** Os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod yr holl feini prawf adnewyddu a nodir yn rheoliad 14 wedi eu bodloni, rhaid iddo ganiatáu'r cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo a dyroddi tystysgrif gymeradwyo i ddeiliad y dystysgrif, sy'n cymeradwyo mangre neu gerbyd mewn cysylltiad â rhoi triniaeth arbennig.

**Gwrthod cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo**

**17.** Os nad yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod yr holl feini prawf adnewyddu a nodir yn rheoliad 14 wedi eu bodloni, rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i ddeiliad y dystysgrif bod y cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo wedi ei wrthod.

DRAFT

**Tystysgrif gymeradwyo yn dod i ben**

**18.**—(1) Mae tystysgrif gymeradwyo i'w thrin at ddibenion y Rhan hon fel pe bai'n dod i ben â pha un bynnag o'r canlynol sydd gynharaf—

(a) diwedd y cyfnod cymeradwyo,

(b) y dyddiad, pan ddaw i ben, y mae dirymu'r dystysgrif gymeradwyo yn cael effaith,

(c) y dyddiad, pan ddaw i ben, y mae'r dystysgrif gymeradwyo yn peidio â chael effaith o dan adran 72(3) o'r Ddeddf (terfynu cymeradwyaeth yn wirfoddol).

(2) Nid yw cais i adnewyddu tystysgrif gymeradwyo i'w drin fel pe bai wedi dod i ben o dan baragraff (1)—

(a) tra bo'r cais i adnewyddu yn yr arfaeth,

(b) tra caniateir i apêl gael ei dwyn o dan Ran 11 o'r Rheoliadau hyn mewn cysylltiad â'r cais,

(c) tra bo apêl a gaiff ei dwyn mewn cysylltiad â'r cais o dan Ran 11 o'r Rheoliadau hyn, o fewn y cyfnod ar gyfer dwyn apêl o dan y Rhan honno, eto i gael ei phenderfynu.

## Rhan 7

### Copi o'r dystysgrif gymeradwyo

**Cais am gopi o dystysgrif gymeradwyo**

**19.**—(1) Os yw tystysgrif gymeradwyo wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi, caiff deiliad y dystysgrif wneud cais am gopi i'r awdurdod lleol a ddyroddodd y dystysgrif.

(2) O ran cais o dan baragraff (1)—

(a) mae i'w wneud ym mha ffordd bynnag sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol o dan sylw,

(b) mae i'w wneud naill ai ar ffurf papur neu drwy ei gyflwyno yn electronig, ac

(c) mae'r ffi am gais (os oes un) i ddod gydag ef.

(3) Mae'r ffi am gais y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(c) i'w gosod gan yr awdurdod lleol gan roi sylw i'r costau y mae'r awdurdod yn mynd iddynt neu y disgwylir i'r awdurdod fynd iddynt mewn cysylltiad ag ymdrin â cheisiadau am gopïau o dystysgrifau cymeradwyo.

(4) Nid yw cais am gopi o dystysgrif gymeradwyo i'w drin fel pe bai wedi ei wneud hyd nes bod yr awdurdod lleol wedi cael y ffi am y cais.

(5) Rhaid i'r awdurdod lleol ganiatáu'r cais os yw wedi ei fodloni—

(a) bod y dystysgrif gymeradwyo ar goll, wedi ei dwyn neu wedi ei difrodi, a

DRAFT

(b) pan fo’r dystysgrif gymeradwyo ar goll neu wedi ei dwyn, bod yr heddlu wedi ei hysbysu am hyn.

(6) Cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl caniatáu cais o dan baragraff (1), mae awdurdod lleol i ddyroddi copi o’r dystysgrif gymeradwyo i ddeiliad y dystysgrif.

**Copi o dystysgrif gymeradwyo**

**20.** Mae copi o dystysgrif gymeradwyo a ddyroddir gan awdurdod lleol o dan reoliad 19—

(a) i’w ardystio gan yr awdurdod lleol fel copi gwir, a

(b) i’w drin at ddibenion y Rheoliadau hyn ac unrhyw ofynion a osodir gan neu o dan y Rheoliadau hyn fel y dystysgrif gymeradwyo wreiddiol.

# Rhan 8

## Ffioedd

**Ffi am gais**

**21.**—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch y ffordd y mae awdurdod lleol yn pennu swm y ffi am gais at ddibenion adran 70(7)(a) o’r Ddeddf.

(2) Rhaid i bob awdurdod lleol gydweithio, a chymryd unrhyw gydweithio o’r fath i ystyriaeth, wrth ystyried y ffi am gais sydd i’w gosod.

(3) Yn dilyn unrhyw gydweithio o’r fath, mae pob awdurdod lleol i bennu—

(a) y ffi am gais, a

(b) yr amgylchiadau, yr achosion neu’r disgrifiadau o achosion (os oes rhai) pan na fo’n ofynnol talu unrhyw ffi am gais, neu pan fo’n ofynnol talu ffi ostyngol.

(4) Caiff pob awdurdod lleol adolygu lefel y ffi gyda’i gilydd—

(a) ar ddiwedd y cyfnod o un flwyddyn sy’n dechrau â’r dyddiad y daw’r Rheoliadau hyn i rym, a

(b) ar ddiwedd pob cyfnod dilynol o dair blynedd wedi hynny.

(5) Wrth bennu’r ffi am gais, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i’r costau y maent yn mynd iddynt neu y disgwylir i awdurdodau fynd iddynt mewn cysylltiad ag ymdrin â’r cais a’r gweithgareddau a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) cael a chofnodi’r cais a chraffu arno,



DRAFT

(b) cynnal arolygiad cydymffurfedd (pan fo'n briodol),

(c) camau gweithredu dilynol sy'n gysylltiedig â'r arolygiad cydymffurfedd,

(d) cymeradwyo neu wrthod y cais, ac

(e) pennu gradd y swyddog sy'n gysylltiedig â phob un o'r swyddogaethau hyn.

(6) Ni chaniateir talu'r ffi am gais mewn rhandaliadau.

(7) Caiff awdurdod lleol ad-dalu'r cyfan neu ran o'r ffi am gais sydd eisoes wedi ei thalu.

(8) Os daw'n amlwg, ar ôl talu'r ffi am gais, y dylid bod wedi talu ffi lai, rhaid ad-dalu'r swm dros ben.

**Ffi gydymffurfio**

**22.**—(1) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif dalu'r ffi gydymffurfio yn ôl y swm ac yn y modd a bennir gan yr awdurdod lleol o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i bob awdurdod lleol gydweithio, a chymryd unrhyw gydweithio o'r fath i ystyriaeth, wrth ystyried y ffi gydymffurfio sydd i'w gosod.

(3) Yn dilyn unrhyw gydweithio o'r fath, mae pob awdurdod lleol i bennu—

(a) y ffi gydymffurfio, a

(b) yr amgylchiadau, yr achosion neu'r disgrifiadau o achosion (os oes rhai) pan fo'n ofynnol talu ffi gydymffurfio ostyngol.

(4) Caiff pob awdurdod lleol adolygu lefel y ffi gyda'i gilydd—

(a) ar ddiwedd y cyfnod o un flwyddyn sy'n dechrau â'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, a

(b) ar ddiwedd pob cyfnod dilynol o dair blynedd wedi hynny.

(5) Wrth bennu'r ffi gydymffurfio, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r costau y maent yn mynd iddynt neu y disgwylir i awdurdodau fynd iddynt mewn cysylltiad ag ymdrin ag adran 76(2) o'r Ddeddf a'r gweithgareddau a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) cynnal cofnodion cywir ar gronfa ddata'r awdurdod lleol a'r gofrestr a sefydlwyd o dan adran 75 o'r Ddeddf,

(b) gwneud ymweliadau dirybudd,

(c) cymryd camau gweithredu anffurfiol neu ffurfiol o ganlyniad i ymweliad neu ar gais cleient,

(d) pennu gradd y swyddog sy'n gysylltiedig â phob un o'r swyddogaethau hyn.

DRAFT

(6) Ni chaniateir talu'r ffi gydymffurfio mewn rhandaliadau.

(7) Caiff awdurdod lleol ad-dalu'r cyfan neu ran o'r ffi gydymffurfio sydd eisoes wedi ei thalu.

(8) Os daw'n amlwg, ar ôl talu'r ffi gydymffurfio, y dylid bod wedi talu ffi lai, rhaid ad-dalu'r swm dros ben.

(9) Oni bai bod y ffi gydymffurfio wedi ei thalu, ni chaniateir i ddeiliad tystysgrif fwrw ymlaen â chais nac â chais am drwydded triniaeth arbennig.

(10) Caniateir i unrhyw ffi gydymffurfio sy'n ddyledus i awdurdod lleol ac sy'n parhau i fod heb ei thalu fod yn adenilladwy gan yr awdurdod lleol hwnnw drwy ddyled sifil.

# Rhan 9

## Hysbysiad o derfynu tystysgrif gymeradwyo yn wirfoddol

### Hysbysiad o derfynu tystysgrif gymeradwyo yn wirfoddol

**23.** Pan fo deiliad tystysgrif yn dymuno i dystysgrif gymeradwyo beidio â chael effaith a phan fo hysbysiad wedi ei roi i'r perwyl hwnnw o dan adran 72(1) o'r Ddeddf i'r awdurdod lleol sydd wedi cymeradwyo neu wedi dyroddi'r dystysgrif gymeradwyo, rhaid i'r hysbysiad gynnwys—

(a) y dyddiad y bwriedir i'r dystysgrif gymeradwyo beidio â chael effaith,

(b) rhif y dystysgrif gymeradwyo,

(c) manylion deiliad y dystysgrif, i gynnwys ei enw llawn, ei ddyddiad geni, ei gyfeiriad a'i fanylion cyswllt,

(d) yn achos mangre a gymeradwywyd, gyfeiriad y fangre,

(e) yn achos cerbyd a gymeradwywyd sydd â rhif cofrestru, rif cofrestru'r cerbyd,

(f) yn achos cerbyd a gymeradwywyd nad oes ganddo rif cofrestru, pa fanylion adnabod bynnag am y cerbyd y mae'r awdurdod lleol wedi ystyried eu bod yn briodol yn unol ag adran 71(3)(b) o'r Ddeddf, ac

(g) enw unrhyw bersonau y mae deiliad y dystysgrif yn meddwl bod yr hysbysiad yn debygol o effeithio arnynt.

DRAFT

# Rhan 10

## Hysbysiadau a'r hawl i gyflwyno sylwadau

### Cyffredinol

**24.**—(1) Yn Rhannau 10 ac 11 o'r Rheoliadau hyn, cyfeirir at y ceisydd neu ddeiliad y dystysgrif fel "P".

(2) Mae'r Rhan hon yn gymwys os yw awdurdod lleol yn bwriadu rhoi hysbysiad i P ei fod yn bwriadu gwrthod cais.

### Gwrthod cais

**25.** Caiff awdurdod lleol wrthod cais (mewn cysylltiad â phob cais).

### Hysbysiad rhybuddio i wrthod cais

**26.** Os yw awdurdod lleol yn bwriadu gwrthod cais o dan reoliad 25, rhaid iddo roi hysbysiad ("hysbysiad rhybuddio") i P sy'n nodi'r hyn y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ei wneud a pham.

### Yr hawl i gyflwyno sylwadau

**27.**—(1) Rhaid i hysbysiad rhybuddio ddatgan y caiff P, o fewn cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, naill ai—

(a) cyflwyno sylwadau ynghylch y cynigion, neu

(b) hysbysu'r awdurdod lleol bod P yn dymuno cyflwyno sylwadau.

(2) Ni chaniateir i'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio fod yn llai na 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad yr hysbysiad.

(3) Caiff yr awdurdod lleol gymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio—

(a) os yw P, o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio, yn hysbysu'r awdurdod lleol nad yw P yn dymuno cyflwyno sylwadau, neu

(b) os yw'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio yn dod i ben ac nad yw P wedi cyflwyno sylwadau nac wedi hysbysu'r awdurdod lleol bod P yn dymuno gwneud hynny.

(4) Os yw P, o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio, yn hysbysu'r awdurdod lleol bod P yn dymuno cyflwyno sylwadau—

(a) rhaid i'r awdurdod lleol ganiatáu cyfnod rhesymol pellach i P i gyflwyno sylwadau, a

(b) caiff yr awdurdod lleol gymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio, os yw P yn



DRAFT

methu â chyflwyno sylwadau o fewn y cyfnod pellach hwnnw.

(5) Os yw P yn cyflwyno sylwadau (naill ai o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio neu o fewn y cyfnod pellach a ganiateir o dan baragraff (4)(a)), rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y sylwadau.

(6) Caniateir i'r sylwadau a gyflwynir gan P o dan y rheoliad hwn gael eu cyflwyno ar lafar neu fel arall, ac yn achos sylwadau llafar, caiff P neu gynrychiolydd P eu cyflwyno.

**Hysbysiad o benderfyniad**

**28.**—(1) Os yw awdurdod lleol, ar ôl cydymffurfio â'r gofynion yn rheoliad 27, yn penderfynu cymryd y camau gweithredu a nodir yn yr hysbysiad rhybuddio, rhaid iddo nodi'r rhesymau dros eu cymryd mewn hysbysiad o benderfyniad.

(2) Rhaid i'r hysbysiad o benderfyniad hefyd ddatgan—

(a) y caiff P apelio o dan Ran 11 o'r Rheoliadau hyn yn erbyn y penderfyniad, a

(b) y cyfnod y caniateir i apêl gael ei dwyn ynddo.

(3) Os yw awdurdod lleol, ar ôl cydymffurfio â rheoliad 27, yn penderfynu peidio â chymryd y camau gweithredu a nodir yn yr hysbysiad rhybuddio, rhaid i'r awdurdod lleol roi'r hysbysiad o benderfyniad i P.

## Rhan 11

### Apelau

**Apêl i lys ynadon**

**29.**—(1) Caiff P apelio i lys ynadon yn erbyn penderfyniad i wrthod cais.

(2) Mae apêl i gael ei gwneud o fewn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad yr hysbysiad o benderfyniad i wrthod y cais.

(3) Mae apêl i fod ar ffurf cwyn am orchymyn, ac yn unol â Deddf Llysoedd Ynadon 1980(**1**).

(4) At ddibenion y terfyn amser ar gyfer gwneud apêl, mae gwneud y gŵyn i'w drin fel gwneud yr apêl.

(5) Yn dilyn apêl, caiff y llys ynadon—

(a) cadarnhau penderfyniad yr awdurdod lleol yr apelir yn ei erbyn, neu

(b) diddymu neu amrywio'r penderfyniad yr apelir yn ei erbyn,

---

(**1**) 1980 p. 43.



DRAFT

(c) a chaiff wneud unrhyw orchymyn o ran costau y mae'n meddwl ei fod yn addas.

(6) Os bydd y llys ynadon yn diddymu neu'n amrywio'r penderfyniad yr apelir yn ei erbyn, caiff anfon yr achos yn ôl i'r awdurdod lleol i ymdrin ag ef yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan y llys.

**Apêl i Lys y Goron**

**30.**—(1) Caniateir i apêl gan y naill barti neu'r llall yn erbyn penderfyniad llys ynadon o dan reoliad 28 gael ei dwyn gerbron Llys y Goron.

(2) Yn dilyn apêl i Lys y Goron, caiff Llys y Goron—

(a) cadarnhau, amrywio neu wrth-droi penderfyniad y llys ynadon,

(b) anfon yr achos yn ôl i'r llys ynadon neu'r awdurdod lleol i ymdrin ag ef yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan Lys y Goron.

**Digolledіad**

**31.**—(1) Pan fo llys, yn dilyn apêl o dan reoliad 29 neu 30, yn amrywio neu'n gwrth-droi penderfyniad awdurdod lleol, caiff y llys orchymyn i'r awdurdod lleol ddigolledu'r ceisydd neu ddeiliad y dystysgrif am golled a ddioddefwyd o ganlyniad i'r penderfyniad.

(2) Nid yw dwyn apêl o dan reoliad 29 neu 30 mewn cysylltiad â phenderfyniad a wneir gan awdurdod lleol yn atal dros dro effaith y penderfyniad nac unrhyw hysbysiad a roddir o dan Ran 10 o'r Rheoliadau hyn.

*Enw*

Dyddiad

DRAFT

## Atodlen 1 Rheoliad 6(2)

## Ffurf y cais am dystysgrif gymeradwyo

[*Rhowch enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol perthnasol a'i logo (dewisol) yma*]

**Cais am dystysgrif gymeradwyo o dan adran 70 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017**

**DARLLENWCH Y CYFARWYDDIADAU A GANLYN YN GYNTAF**

**Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llaw, ysgrifennwch yn glir mewn priflythrennau gan ddefnyddio inc. Defnyddiwch ddalennau ychwanegol os bydd angen (wedi eu marcio â rhif y cwestiwn perthnasol). Efallai y byddwch am gadw copi o'r ffurflen wedi ei llenwi ar gyfer eich cofnodion.**

### Rhan 1 – Y math o dystysgrif gymeradwyo y gwneir cais amdani

*Ticiwch fel y bo'n briodol*

**1.1. Pa fath o dystysgrif gymeradwyo y mae eich cais yn ymwneud â hi?**

Mangre ☐ Cerbyd ☐

**1.2 Beth yw cyfnod para arfaethedig eich tystysgrif gymeradwyo?**

Dros dro (dim mwy na 7 niwrnod) ☐ 3 blynedd ☐

***Os ydych yn gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo dros dro, nodwch pam y mae tystysgrif yn ofynnol (er enghraifft, rhowch fanylion ynghylch arddangosfa, adloniant neu ddigwyddiad):***

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………...……………………………

**1.3 Pryd rydych chi am i'r dystysgrif gymeradwyo ddechrau?**

Cyn gynted â phosibl ☐

Dyddiadau penodol ☐ (er enghraifft, nodwch y diwrnodau rydych chi am i'r dystysgrif gymeradwyo eu cwmpasu)

…….…………………… i ……………………………..

### Rhan 2 – Manylion y ceisydd (llenwch fel y bo'n gymwys)

*Os ydych yn gwneud cais fel unigolyn, llenwch Adran A. Os yw'r cais yn cael ei wneud ar ran busnes neu sefydliad (megis cwmni neu bartneriaeth), llenwch Adran B.*

### Adran A – Ceisydd unigol

DRAFT

**2.1 Teitl:** Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Dr ☐ Arall ☐ (nodwch os gwelwch yn dda) …………………………..

**2.2 Cyfenw:** ……………………………………………….

**2.3 Enw(au) cyntaf:** ………………………………………………

**2.4 Rhif ffôn cyswllt:** ………………………………………………

**2.5 Cyfeiriad e-bost (os yw'n gymwys):** ..…………………………………………………………………….

**2.6 Dyddiad Geni:** ……………………………………..

**2.7 Cyfeiriad y ceisydd (cartref neu fusnes** *[dileer fel y bo'n briodol]***):**

……………………………………………………………………………………………………

…………………………………………….. Cod post: …………………………………..

**2.8 Nodwch enw llawn y person a fydd yn cael ei restru fel deiliad y dystysgrif ar y dystysgrif gymeradwyo:**

……………………………………………………………………………….

## Adran B – Cais ar ran busnes neu sefydliad

**2.9 Enw'r busnes neu'r sefydliad sy'n gwneud cais:**

……………………………………………………………………………………………………
[*Defnyddiwch enw masnachu neu enw cofrestredig y busnes neu'r sefydliad*]

**2.10 Rhif cofrestru'r cwmni (os yw'n gymwys):**

……………………………………………………………………………………………………

**2.11 Math o gwmni (os yw'n gymwys):**

……………………………………………………………………………………………………
[*Er enghraifft, Cwmni cyfyngedig preifat, Partneriaeth, Unig Fasnachwr*]

**2.12 Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon ar ran y busnes neu'r sefydliad, nodwch eich enw llawn a'ch rôl yn y busnes:**

**Enw llawn:** ……………………………………………………………………….

**Rôl:** ……………………………………………………………………………
[*Er enghraifft, Perchennog, Rheolwr, Cyfarwyddwr*]

**2.13 Cyfeiriad swyddfa gofrestredig y busnes neu'r sefydliad**:

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………..… Cod post: ……………………………………….

**2.14 Rhowch enw llawn a manylion cyswllt unigolyn ychwanegol yn y swyddfa gofrestredig y gellir cysylltu ag ef mewn cysylltiad â'r cais hwn:**

DRAFFT

**Enw llawn:** ……………………………………………………………………………………………

**Rôl:** ……………………..…………………………………………………………….

**Manylion cyswllt (rhif ffôn a chyfeiriad e-bost):**

…………………………………………………………………………….………………

**2.15 Nodwch enw llawn y person ac enw'r busnes/sefydliad a fydd yn cael ei restru fel deiliad y dystysgrif ar y dystysgrif gymeradwyo:**

……………………………………………………………………………….

……………………………………………………………………………….

**2.16 Cadarnhewch fod deiliad arfaethedig y dystysgrif yn 18 oed neu'n hŷn (ticiwch)** ☐

**2.17 A yw'r ceisydd neu unrhyw berson a enwir yn y cais hwn, yn ymwneud mewn unrhyw ffordd ag unrhyw fangre arall neu unrhyw gerbyd arall lle y rhoddir triniaethau arbennig?**

Ydy ☐ Nac ydy ☐

**Os ydyw, rhowch fanylion:**

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

[*Er enghraifft, natur a maint unrhyw fuddiant, cyfeiriad unrhyw fangre, neu fanylion ynghylch unrhyw gerbyd, rhif(au) y dystysgrif gymeradwyo ar gyfer unrhyw fangre neu unrhyw gerbyd.*]

## Rhan 3 – Manylion y Fangre neu'r Cerbyd

Pan fo'ch cais yn ymwneud â mangre, llenwch Adran A. Os yw'r cais yn ymwneud â cherbyd, llenwch Adran B.

**Adran A – Manylion y Fangre**

**3.1 Enw masnachu a ddefnyddir yn y fangre (os yw'n gymwys):**

…………………………………………………………………………………………………………

**3.2 Cyfeiriad y fangre:**

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

………………………………………...…… Cod post: ………………………………………………….

**3.3 Rhif ffôn yn y fangre (os yw'n gymwys):**

……………………………………………………………………………

**3.4 Manylion cyfeiriad y wefan (os yw'n gymwys):**

………………………………………………………………………………..

**3.5 Rhestr o driniaethau arbennig sydd i'w rhoi yn y fangre:**

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

**3.6 A oes unrhyw weithgareddau eraill (er enghraifft gweithgareddau nad ydynt yn cael eu hystyried yn driniaethau arbennig) yn cael eu gwneud yn y fangre?**

Oes ☐ Nac oes ☐

**Os oes, rhestrwch y gweithgareddau eraill hynny:**

…………………………………………………………………………………………

**3.7 Faint o ddeiliaid trwydded fydd yn gweithio yn y fangre hon?**

…………………………………………………………………………………………..

**3.8 Faint o weithfannau fydd yn weithredol yn y fangre hon?**

…………………………………………………………………………………………..

**3.9 Nodwch nifer a lleoliad unrhyw fasnau golchi dwylo yn y fangre:**

…………………………………………………………………………………..………

**3.10 Nodwch a yw unrhyw fasnau golchi dwylo yn darparu:**

- **Cyflenwad digonol o ddŵr poeth ac oer** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐
- **Tapiau nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐
- **Sebon hylif neu sebon ewyn** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐
- **Tywelion papur tafladwy mewn cyflenwr sydd wedi ei osod ar wal** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.11 A yw'r holl osodiadau a'r ffitiadau yn y fangre mewn cyflwr da ac wedi eu gwneud o ddeunyddiau y gellir eu glanhau a'u diheintio yn hawdd?** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.12 A yw'r holl waliau a'r lloriau yn y fangre mewn cyflwr da ac wedi eu gwneud o ddeunyddiau y gellir eu glanhau a'u diheintio yn hawdd?** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.13 Rhowch fanylion llawn ynghylch y cyfarpar a'r cynhyrchion a ddefnyddir wrth sterileiddio, diheintio a glanhau unrhyw offerynnau, cyfarpar, gosodiadau a ffitiadau (gan gynnwys sinciau):**

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

**3.14 Nodwch pa ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud ar gyfer storio, casglu a gwaredu gwastraff (gan gynnwys offer miniog):**

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

DRAFT

**3.15 Nodwch pa ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud mewn perthynas â'r canlynol:**

- **Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)**

  ……………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………

- **Cymorth Cyntaf**

  ……………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………

**3.16 Nodwch pa ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud ar gyfer storio a chynnal cofnodion mewn perthynas â'r canlynol:**

- **Gwybodaeth am gleientiaid**

  ……………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………

- **Cyflenwyr a defnydd o gynhyrchion**

  ……………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………

- **Gweithdrefnau glanhau a diheintio**

  ……………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………

- **Cynnal a chadw a gwasanaethu cyfarpar**

  ……………………………………………………………………

  ……………………………………………………………………

DRAFT

**Adran B – Manylion y Cerbyd**

**3.17 Enw masnachu a ddefnyddir yn y cerbyd (os yw'n gymwys):**

…………………………………………………………………………

**3.18 Rhowch fanylion ynghylch y cerbyd:**

**Rhif cofrestru'r cerbyd** ……………………………………………….

**Os nad oes gan y cerbyd rif cofrestru, rhowch ddisgrifiad o'r cerbyd a'i leoliad (pan fo'n bosibl, dylai hyn gynnwys cyfeiriad gyda chod post) a darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl i nodi'r cerbyd, er enghraifft, gwneuthuriad, model a lliw'r cerbyd:**

……………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………

**3.19 Manylion cyfeiriad y wefan (os yw'n gymwys):**

………………………………………………………………………………………..

**3.20 Rhestr o driniaethau arbennig sydd i'w rhoi yn y cerbyd:**

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

**3.21 A oes unrhyw weithgareddau eraill (er enghraifft gweithgareddau nad ydynt yn cael eu hystyried yn driniaethau arbennig) yn cael eu gwneud yn y cerbyd hwn?**

Oes ☐ Nac oes ☐

**Os oes, rhestrwch y gweithgareddau eraill hynny:**

………………………………………………………………………………………………

**3.22 Faint o ddeiliaid trwydded fydd yn gweithio yn y cerbyd hwn?**

………………………………………………………………………………………………..

**3.23 Faint o weithfannau fydd yn weithredol yn y cerbyd hwn?**

………………………………………………………………………………………………..

**3.24 Nodwch nifer a lleoliad unrhyw fasnau golchi dwylo yn y cerbyd hwn:**

…………………………………………………………………………………..………

**3.25 Nodwch a yw unrhyw fasnau golchi dwylo yn darparu:**

- **Cyflenwad digonol o ddŵr poeth ac oer** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐
- **Tapiau nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐
- **Sebon hylif neu sebon ewyn** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐
- **Tywelion papur tafladwy mewn cyflenwr sydd wedi ei osod ar wal** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.26 A yw'r holl osodiadau a'r ffitiadau yn y cerbyd mewn cyflwr da ac wedi eu gwneud o ddeunyddiau y gellir eu glanhau a'u diheintio yn hawdd?** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.27 A yw'r holl waliau a'r lloriau yn y cerbyd mewn cyflwr da ac wedi eu gwneud o ddeunyddiau y gellir eu glanhau a'u diheintio yn hawdd?** Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

**3.28 Rhowch fanylion llawn ynghylch y cyfarpar a'r cynhyrchion a ddefnyddir wrth sterileiddio, diheintio a glanhau unrhyw offerynnau, cyfarpar, gosodiadau a ffitiadau (gan gynnwys sinciau):**

………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………

DRAFT

…………………………………………………………………………………………………………………

**3.29 Nodwch pa ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud ar gyfer storio, casglu a gwaredu gwastraff (gan gynnwys offer miniog):**

…………………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………………

**3.30 Nodwch pa ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud mewn perthynas â'r canlynol:**

- **Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)**

  …………………………………………………………………………

  …………………………………………………………………………

- **Cymorth Cyntaf**

  …………………………………………………………………………

  …………………………………………………………………………

**3.31 Nodwch pa ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud ar gyfer storio a chynnal cofnodion mewn perthynas â'r canlynol:**

- **Gwybodaeth am gleientiaid**

  …………………………………………………………………………

  …………………………………………………………………………

- **Cyflenwyr a defnydd o gynhyrchion**

  …………………………………………………………………………

  …………………………………………………………………………

- **Gweithdrefnau glanhau a diheintio**

  …………………………………………………………………………

  …………………………………………………………………………

- **Cynnal a chadw a gwasanaethu cyfarpar**

  …………………………………………………………………………

  …………………………………………………………………………

## Rhan 4 – Amseroedd gweithredu

**Llenwch y tabl isod i nodi amseroedd agor a chau arfaethedig y fangre neu'r cerbyd:**

| | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|
| Dydd Llun | | |
| Dydd Mawrth | | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Mercher | | |
| Dydd Iau | | |
| Dydd Gwener | | |
| Dydd Sadwrn | | |
| Dydd Sul | | |

[*Rhowch amseroedd yn ôl y cloc 24 awr (e.e. 16:00) a rhowch fanylion dim ond ar gyfer dyddiau'r wythnos pan fyddwch yn bwriadu defnyddio'r fangre neu'r cerbyd i roi triniaethau arbennig.*]

## Rhan 5 – Amrywiol (llenwch fel y bo'n gymwys)

*Ticiwch fel y bo'n briodol*

**5.1 A ydych chi, neu unrhyw berson a enwir yn y cais hwn neu sy'n gysylltiedig â'r cais, wedi gwneud cais blaenorol am dystysgrif gymeradwyo? (Ticiwch bob un sy'n gymwys)**

Naddo ☐ Do – cais am dystysgrif gymeradwyo wedi ei ganiatáu ☐ Do – cais i amrywio wedi ei ganiatáu ☐

Do – cais i adnewyddu wedi ei ganiatáu ☐ Do – cais (am dystysgrif gymeradwyo, i amrywio a/neu adnewyddu) wedi ei ganiatáu a'r dystysgrif gymeradwyo wedi ei dirymu ☐

Do – cais (am dystysgrif gymeradwyo, i amrywio a/neu adnewyddu) wedi ei wrthod ☐

**Os ydych, rhowch fanylion (er enghraifft, rhif unrhyw dystysgrif gymeradwyo, y rhesymau pam y gwrthodwyd cais):**

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

**5.2 A oes gennych drwydded triniaeth arbennig?** Oes ☐ Nac oes ☐ Cais yn yr arfaeth ☐

**Os oes, rhowch rif y drwydded:** ……………………………………………………….

**Os oes cais yn yr arfaeth, rhowch y dyddiad y gwnaed y cais:**

……………………………………………..

**5.3 A wnewch chi gadarnhau pa iaith yr hoffech ei defnyddio wrth drafod eich cais â'r awdurdod lleol:**

Cymraeg ☐ Saesneg ☐

**5.4 Nodwch unrhyw wybodaeth arall rydych yn ystyried ei bod yn berthnasol i'ch cais mewn cysylltiad â'r fangre neu'r cerbyd:**

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

## Rhan 6 – Datganiad a Rhestr Wirio (llenwch/ticiwch)

DRAFT

**Mae'r datganiad hwn i'w gwblhau gan ddeiliad arfaethedig y dystysgrif.**

**Rwyf yn cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth, fod yr wybodaeth a gynhwysir yn y cais hwn yn wir. Deallaf ei bod yn drosedd o dan adran 82(7) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i roi gwybodaeth sy'n anwir neu'n gamarweiniol yn y cais hwn, neu mewn perthynas ag ef.** ☐

**Rwyf yn cadarnhau bod gan y ceisydd unigol/y busnes neu'r sefydliad yr hawl i feddiannu'r fangre neu'r cerbyd *(dileer fel y bo'n gymwys)*** ☐

**Rhestr wirio:**

- **Mae'r taliad am y ffi am gais wedi ei wneud/wedi ei amgáu** ☐
- **Mae'r ffurflen gais wedi ei llenwi'n gyflawn ac wedi ei llofnodi** ☐
- **Mae plan o'r fangre neu'r cerbyd wedi ei amgáu** ☐
- **Mae tystiolaeth o Ddyfarniad Lefel 2 a reoleiddir wedi ei hamgáu** ☐
- **Mae tystiolaeth o sicrwydd yswiriant dilys wedi ei hamgáu** ☐
- **Mae copïau o ddogfennau i wirio hunaniaeth deiliad arfaethedig y dystysgrif wedi eu hamgáu** ☐
- **Deallaf os na chydymffurfir â'r gofynion uchod y gallai'r cais gael ei wrthod** ☐

## Rhan 7 – Llofnod

**7 Llofnod deiliad arfaethedig y dystysgrif**

**Llofnod:** …………………………………………..……..

**Enw (mewn priflythrennau):** …………………………………..……..

**Dyddiad:** ……………………………………….................

[*Pan fo'r cais i'w gyflwyno ar ffurf electronig, dylid cynhyrchu'r llofnod yn electronig a dylai fod yn gopi o lofnod ysgrifenedig y person.*]

DRAFT

## Atodlen 2 Rheoliad 9(1)

Ffurf a chynnwys y dystysgrif gymeradwyo

**Rhif:** *[Mewnosoder rhif y dystysgrif gymeradwyo]*

**TYSTYSGRIF GYMERADWYO**

***Mae'r gymeradwyaeth hon wedi ei dyroddi o dan adran 70 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 gan***
[*Mewnosoder enw'r awdurdod lleol sy'n dyroddi a'r logo*]

**Rhan 1 – Manylion y sawl y mae'r dystysgrif gymeradwyo hon wedi ei dyroddi iddo**

**Mae'r dystysgrif gymeradwyo hon wedi ei dyroddi i:**

…………………………………………………………………………………………………...………
[*Mewnosoder enw llawn y person a/neu'r busnes/sefydliad y mae'r gymeradwyaeth wedi ei dyroddi iddo*]

**Rhan 2 – Manylion y dystysgrif gymeradwyo**

**Daeth y dystysgrif gymeradwyo hon i rym ar:**

……………………………………………………………………………………………………………
[*Mewnosoder y dyddiad cymeradwyo*]

**Bydd y dystysgrif gymeradwyo hon yn dod i ben ar:**

……………………………………………………………………………………………………………
[*Mewnosoder y dyddiad dod i ben*]

**Mae'r dystysgrif gymeradwyo hon yn awdurdodi'r driniaeth/triniaethau arbennig a ganlyn:**
……………………………………………………………………………………………………………
[*Mewnosoder y driniaeth/triniaethau arbennig*]

**I'w rhoi yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd a ganlyn** [*dileer fel y bo'n gymwys*]:

……………………………………………………………………………………………………………
[*Yn achos cymeradwyo mangre, rhaid mewnosod cyfeiriad y fangre. Yn achos cymeradwyo cerbyd, rhaid mewnosod rhif cofrestru'r cerbyd. Os nad oes gan y cerbyd rif cofrestru, rhaid i'r awdurdod lleol nodi'r cerbyd ym mha ffordd bynnag y mae'n ystyried ei bod yn briodol a mewnosod y manylion hynny yma*]

**Uchafswm nifer y gweithfannau mewn cysylltiad â'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd uchod yw** [*dileer fel y bo'n gymwys*]:

………………………………………..

**Llofnodwyd ar ran yr awdurdod lleol sy'n dyroddi**

……………………………………………………………………………………………………………
[*Mewnosoder llofnod y person sydd wedi ei awdurdodi i lofnodi ar ran yr awdurdod. Pan fo'r dystysgrif gymeradwyo wedi ei dyroddi'n electronig, rhaid cynhyrchu'r llofnod yn electronig a rhaid iddo fod yn gopi o lofnod ysgrifenedig y person*]

DRAFT

**NID YW’R DYSTYSGRIF HON YN DROSGLWYDDADWY**

DRAFFT

## Atodlen 3 Rheoliad 10

## Amodau cymeradwyo mandadol cymwys ar gyfer tystysgrif gymeradwyo

**Cyffredinol**

1. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif weithredu yn unol â'r dystysgrif gymeradwyo a ddyroddwyd ac â'r amodau cymeradwyo mandadol cymwys.

2. Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i unrhyw ddeiliaid trwydded roi triniaeth arbennig pan fo'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, neu unrhyw ran ohoni neu ohono, yn peri, neu'n debygol o beri, risg sylweddol o niwed i iechyd dynol.

3. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd yn cael ei defnyddio neu ei ddefnyddio yn y fath fodd sy'n lleihau'r risg o niwed i iechyd dynol.

4. Ni chaiff deiliad y dystysgrif beryglu diogelwch, iechyd na llesiant cleientiaid, deiliaid trwydded, staff nac aelodau o'r cyhoedd drwy ddefnyddio ei fangre neu ei gerbyd.

5. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif gadw a chynnal cofnod cyfredol o'r holl ddeiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, gan gynnwys y driniaeth/triniaethau arbennig y maent wedi eu trwyddedu i'w rhoi.

6. Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i ddeiliaid trwydded weithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ond pan fo'r fangre neu'r cerbyd wedi ei phennu neu wedi ei bennu yn eu trwydded.

7. Ni chaniateir mynd y tu hwnt i uchafswm nifer y gweithfannau a gymeradwywyd i'w defnyddio yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ac sydd wedi ei nodi ar y dystysgrif gymeradwyo.

8. Mae deiliad y dystysgrif yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ddeiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, yn gweithredu yn unol â'u hamodau trwyddedu mandadol cymwys.

DRAFT

**Materion sy'n ymwneud â'r dystysgrif gymeradwyo**

9. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod copi o'r amodau cymeradwyo mandadol cymwys ar gael yn rhwydd i'w arolygu gan swyddogion awdurdodedig yr awdurdod lleol neu gan unrhyw gwsmer ar gais.

10. Nid yw'r dystysgrif gymeradwyo yn drosglwyddadwy ac ni chaniateir i unrhyw berson arall ei defnyddio. Ni chaniateir ei haddasu mewn unrhyw ffordd a rhaid iddi barhau i fod yn ddarllenadwy.

11. Ni chaiff yr awdurdod lleol sy'n dyroddi ond gwneud newidiadau i'r dystysgrif gymeradwyo ar ôl i gais i amrywio gael ei ddarparu i'r awdurdod hwnnw a chael ei gymeradwyo ganddo.

12. Mae'r dystysgrif gymeradwyo yn annilys os bu newid mewn perchnogaeth neu reolaeth mewn perthynas â'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

13. Mewn achos pan fo'r dystysgrif gymeradwyo wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi, rhaid i ddeiliad y dystysgrif hysbysu'r awdurdod lleol sy'n dyroddi ar unwaith a chael un newydd yn ei lle oddi wrth yr awdurdod lleol sy'n dyroddi ar ôl talu'r ffi am gais.

14. Rhaid dychwelyd y dystysgrif gymeradwyo i'r awdurdod lleol sy'n dyroddi yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir gan yr awdurdod hwnnw.

15. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y sicrwydd yswiriant ar gyfer y fangre neu'r cerbyd yn parhau i fod yn ddilys ac yn ystyried yr ystod o driniaethau arbennig a gynigir drwy gydol y cyfnod cymeradwyo. Rhaid i dystysgrifau yswiriant fod ar gael yn rhwydd yn y fangre neu'r cerbyd i'w harolygu gan swyddogion awdurdodedig yr awdurdod lleol sy'n ymweld â'r fangre neu'r cerbyd.

**Materion sy'n ymwneud ag arddangos hysbysiadau a mynediad cyfyngedig**

16. Rhaid i'r dystysgrif gymeradwyo gael ei harddangos ym mynedfa cwsmeriaid y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd neu gerllaw iddi, neu yn y rhan ohoni neu ohono sy'n destun



DRAFT

y dystysgrif gymeradwyo, ac mewn safle sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w darllen yn hawdd.

17. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif arddangos hysbysiad sy'n datgan na fydd triniaethau arbennig yn cael eu rhoi i unrhyw berson sy'n feddw neu yr ymddengys ei fod yn feddw, pa un ai yn rhinwedd diod, cyffuriau neu unrhyw fodd arall. Rhaid i'r hysbysiad hwn fod mewn lleoliad sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w ddarllen yn hawdd.

18. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif arddangos hysbysiad sy'n pennu bod anifeiliaid wedi eu gwahardd rhag bod mewn ystafelloedd neu fannau lle y mae triniaethau arbennig yn cael eu rhoi, ac eithrio anifeiliaid cymorth. Rhaid i'r hysbysiad hwn fod mewn lleoliad sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w ddarllen yn hawdd.

19. Rhaid arddangos yn glir gyfarwyddiadau golchi dwylo wrth bob basn golchi dwylo yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

20. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau nad yw cleientiaid ond yn cael mynediad i'r man lle y mae triniaeth arbennig yn cael ei rhoi. Dim ond rhan o'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd y caniateir i unrhyw unigolion eraill gael mynediad iddi pan na fo hynny'n peri risg uwch o haint.

**Dyluniad, strwythur a'r amgylchedd ffisegol**

21. Ni chaniateir rhoi triniaeth arbennig ond mewn gweithfan yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

22. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod dyluniad, maint, strwythur a chyflwr y fangre neu'r cerbyd yn galluogi gwaith glanhau effeithiol a phan fo'n briodol, ddiheintio.

23. Rhaid i'r holl arwynebau, gosodiadau, ffitiadau a chyfleusterau mewnol a ddefnyddir fel rhan o'r busnes triniaethau arbennig fod o'r fath ddeunydd a dyluniad, a chael eu cadw mewn cyflwr da i alluogi gwaith glanhau effeithiol, a phan fo'n briodol, ddiheintio.

24. Pan ddarperir man aros, rhaid ei wahanu'n ffisegol oddi wrth y man lle y mae triniaethau arbennig yn cael eu rhoi.

DRAFT

25. Rhaid bod gan y fangre neu’r cerbyd a gymeradwywyd gyfleusterau toiled y gall deiliaid trwydded, staff a chleientiaid eu cyrraedd a’u defnyddio’n rhwydd.

26. Pan ddarperir cyfleusterau toiled yn y fangre neu’r cerbyd a gymeradwywyd, rhaid iddynt gael eu hawyru a chynnwys basn golchi dwylo sydd â chyflenwad digonol o ddŵr rhedegog (poeth ac oer neu gymysg), sebon hylif a thywelion papur wedi eu storio mewn cyflenwr.

27. Rhaid i’r weithfan lle y mae’r driniaeth arbennig yn cael ei rhoi fod â digon o le—

(a) er mwyn galluogi rhoi’r driniaeth arbennig yn ddiogel ac yn hylan, a

(b) i gynnwys y weithfan a’r cyfleusterau ar gyfer storio’n hylan gyfarpar, offerynnau a chynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer triniaethau arbennig, neu mewn cysylltiad â hwy, er mwyn osgoi’r risg o halogiad.

28. Rhaid darparu cyfleusterau addas ar gyfer storio’n hylan gyfarpar, offerynnau a chynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer triniaethau arbennig, neu mewn cysylltiad â hwy, er mwyn osgoi’r risg o halogiad.

29. Rhaid darparu trefniadau a chyfleusterau addas ar gyfer storio, rheoli ac adalw cofnodion cleientiaid yn ddiogel, sy’n ymwneud â’r triniaethau arbennig sy’n cael eu cynnig a’u rhoi.

30. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif ddarparu pecyn cymorth cyntaf sydd wedi ei stocio’n addas, sydd ar gael yn rhwydd ac sy’n cynnwys stoc sylfaenol o eitemau i ddiwallu anghenion cymorth cyntaf y triniaethau arbennig a roddir yn y fangre neu’r cerbyd a gymeradwywyd.

31. Rhaid i’r goleuadau fod yn addas ac yn ddigonol i sicrhau bod y fangre neu’r cerbyd yn gweithredu’n ddiogel ac i hwyluso gwaith glanhau a diheintio effeithiol. Pan fo angen, rhaid darparu goleuadau lleol ym mhob gweithfan i sicrhau bod y driniaeth arbennig yn cael ei rhoi yn ddiogel ac yn hylan.

32. Rhaid darparu awyriad digonol ym mhob ystafell yn y fangre neu’r cerbyd a gymeradwywyd.

33. Rhaid darparu nifer addas o fasnau golchi dwylo sydd ar gael yn rhwydd ym mhob man gwaith triniaethau arbennig. Rhaid i’r basnau

DRAFT

golchi dwylo weithio'n iawn a bod mewn cyflwr da.

34. Rhaid i unrhyw fasnau golchi dwylo a ddefnyddir mewn man gwaith triniaethau arbennig fod â thapiau nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw a chynnwys cyflenwad digonol o ddŵr rhedegog (poeth ac oer neu gymysg), sebon hylif a thywelion papur wedi eu storio mewn cyflenwr sy'n agos i'r basn golchi dwylo.

35. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod yr holl fasnau golchi dwylo at ddefnydd y deiliaid trwydded yn cael eu stocio'n llawn â sebon hylif a thywelion papur.

36. Ni chaniateir defnyddio basnau golchi dwylo ond at ddibenion golchi dwylo ac elinau.

**Dihalogi, glanhau, diheintio a sterileiddio**

37. Rhaid cadw pob rhan o'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd yn lân ac yn daclus.

38. Rhaid gweithredu amserlen lanhau sy'n addas ac yn ddigonol ar gyfer y fangre, y gosodiadau, y ffitiadau, y dodrefn, y cyfarpar a'r offerynnau.

39. Rhaid darparu cyfarpar, cyfleusterau a threfniadau ar gyfer dihalogi, glanhau, diheintio a, phan fo angen, sterileiddio teclynnau gwaith, offerynnau ac eitemau eraill. Rhaid gwahanu'r ddarpariaeth hon oddi wrth y mannau/ystafelloedd lle y mae triniaethau arbennig yn cael eu rhoi a rhaid iddi adlewyrchu'r triniaethau a roddir yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

40. Rhaid defnyddio, cynnal a gwasanaethu'r holl gyfarpar a ddefnyddir at ddiben glanhau, diheintio neu sterileiddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a rhaid cael cofnodion ar ffurf dogfen i ddangos bod y profion ansawdd priodol wedi eu cynnal i ddilysu'r defnydd o'r cyfarpar hwnnw.

**Gwastraff gan gynnwys offer miniog**

41. Rhaid gwneud darpariaeth addas ar gyfer casglu, storio a gwaredu gwastraff a sbwriel arall.

42. Rhaid darparu nifer digonol o finiau hawdd eu glanhau, nad ydynt yn cael eu gweithredu â

DRAFT

llaw, mewn man gwaith triniaethau arbennig a rhaid iddynt fod wedi eu hadeiladu'n briodol, a chael eu cadw mewn cyflwr da a glân.

43. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif ddarparu nifer addas o flychau offer miniog sy'n cydymffurfio â'r gofynion cyfredol a osodir gan y Sefydliad Safonau Prydeinig, a sicrhau eu bod mewn lleoliad diogel yn agos i unrhyw weithfan(nau).

44. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod darpariaeth addas wedi ei gwneud ar gyfer gwaredu gwastraff domestig a gwastraff clinigol nad yw'n beryglus, ac ar gyfer eu storio ar wahân.

45. Rhaid marcio tarddle (enw a chyfeiriad y busnes) yr holl wastraff clinigol nad yw'n beryglus (bagiau melyn a blychau offer miniog) cyn eu gwaredu.

46. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y gwastraff clinigol, nad yw'n beryglus yn cael ei gasglu'n rheolaidd gan gludwr gwastraff trwyddedig. Rhaid cadw cofnod o wastraff rheoledig a draddodir yn y fangre neu'r cerbyd a rhaid iddo fod ar gael i'w arolygu gan y swyddog awdurdodedig o'r awdurdod lleol.

## Atodlen 4 Rheoliad 11

## Amodau cymeradwyo mandadol cymwys ar gyfer tystysgrif gymeradwyo dros dro

**Cyffredinol**

1. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif weithredu yn unol â'r dystysgrif gymeradwyo a ddyroddwyd ac â'r amodau cymeradwyo mandadol cymwys.

2. Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i unrhyw ddeiliaid trwydded roi triniaeth arbennig pan fo'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, neu unrhyw ran ohoni neu ohono, yn peri, neu'n debygol o beri, risg sylweddol o niwed i iechyd dynol.

3. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd yn cael ei defnyddio neu ei ddefnyddio yn y fath fodd sy'n lleihau'r risg o niwed i iechyd dynol.



DRAFT

4. Ni chaiff deiliad y dystysgrif beryglu diogelwch, iechyd na llesiant cleientiaid, deiliaid trwydded, staff nac aelodau o'r cyhoedd drwy ddefnyddio ei fangre neu ei gerbyd.

5. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif gadw a chynnal cofnod cyfredol o'r holl ddeiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, gan gynnwys y driniaeth/triniaethau arbennig y maent wedi eu trwyddedu i'w rhoi.

6. Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i ddeiliaid trwydded weithredu yn ei fangre neu ei gerbyd a gymeradwywyd ond pan fo'r fangre neu'r cerbyd wedi ei phennu neu wedi ei bennu yn eu trwydded.

7. Ni chaniateir mynd y tu hwnt i uchafswm nifer y gweithfannau a gymeradwywyd i'w defnyddio yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ac sydd wedi ei nodi ar y dystysgrif gymeradwyo.

8. Mae deiliad y dystysgrif yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ddeiliad trwydded yn gweithredu yn unol â'u hamodau trwyddedu mandadol cymwys.

**Materion sy'n ymwneud â'r dystysgrif gymeradwyo dros dro**

9. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod copi o'r amodau cymeradwyo mandadol cymwys ar gael yn rhwydd i'w arolygu gan swyddogion awdurdodedig yr awdurdod lleol neu gan unrhyw gwsmer ar gais.

10. Nid yw'r dystysgrif gymeradwyo yn drosglwyddadwy ac ni chaniateir i unrhyw berson arall ei defnyddio. Ni chaniateir ei newid mewn unrhyw ffordd a rhaid iddi barhau i fod yn ddarllenadwy.

11. Mewn achos pan fo'r dystysgrif gymeradwyo wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi, rhaid i ddeiliad y dystysgrif hysbysu'r awdurdod lleol sy'n dyroddi ar unwaith a chael un newydd yn ei lle oddi wrth yr awdurdod lleol sy'n dyroddi ar ôl talu'r ffi am gais.

12. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y sicrwydd yswiriant ar gyfer y fangre neu'r cerbyd yn parhau i fod yn ddilys ac yn ystyried yr ystod o driniaethau arbennig a gynigir drwy

DRAFT

gydol y cyfnod cymeradwyo. Rhaid i dystysgrifau yswiriant fod ar gael yn rhwydd yn y fangre neu'r cerbyd i'w harolygu gan swyddogion awdurdodedig yr awdurdod lleol sy'n ymweld â'r fangre neu'r cerbyd.

**Materion sy'n ymwneud ag arddangos hysbysiadau a mynediad cyfyngedig**

13. Rhaid i'r dystysgrif gymeradwyo gael ei harddangos ym mynedfa cwsmeriaid y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd neu gerllaw iddi, neu yn y rhan ohoni neu ohono sy'n destun y dystysgrif gymeradwyo, ac mewn safle sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w darllen yn hawdd.

14. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif arddangos hysbysiad sy'n datgan na fydd triniaethau arbennig yn cael eu rhoi i unrhyw berson sy'n feddw neu yr ymddengys ei fod yn feddw, pa un ai yn rhinwedd diod, cyffuriau neu unrhyw fodd arall. Rhaid i'r hysbysiad hwn fod mewn lleoliad sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w ddarllen yn hawdd.

15. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif arddangos hysbysiad sy'n pennu bod anifeiliaid wedi eu gwahardd rhag bod mewn ystafelloedd neu fannau lle y mae triniaethau arbennig yn cael eu rhoi, ac eithrio anifeiliaid cymorth. Rhaid i'r hysbysiad hwn fod mewn lleoliad sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w ddarllen yn hawdd.

16. Rhaid arddangos yn glir gyfarwyddiadau golchi dwylo wrth bob basn golchi dwylo sy'n cael ei ddefnyddio gan ddeiliaid trwydded yn unig.

17. Rhaid nodi mannau mynediad y cyhoedd yn glir a rhaid cyfyngu ar fynediad aelodau o'r cyhoedd i'r canlynol—

(a) gweithfannau lle y mae triniaethau arbennig yn cael eu rhoi (oni bai eu bod yn gleientiaid),

(b) mannau/ystafelloedd lle y mae sbwriel sy'n deillio o'r driniaeth arbennig yn cael ei gasglu a'i storio, ac

(c) unrhyw fannau lle y mae cyfarpar/cynhyrchion sy'n ymwneud â thriniaethau arbennig yn cael ei storio neu eu storio.

**Dyluniad, strwythur a'r amgylchedd ffisegol**



DRAFT

18. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod dyluniad, maint, strwythur a chyflwr y fangre neu'r cerbyd yn galluogi gwaith glanhau effeithiol a, phan fo'n briodol, ddiheintio.

19. Ni chaniateir rhoi triniaeth arbennig ond yn y weithfan sydd wedi ei dynodi at y diben hwnnw. Rhaid cyfyngu ar fynediad i'r man hwn i bersonau awdurdodedig a deiliad y drwydded.

20. Rhaid i'r holl arwynebau, gosodiadau, ffitiadau a chyfleusterau mewnol lle y mae'r driniaeth arbennig yn cael ei rhoi fod o'r fath ddeunydd a dyluniad, a chael eu cadw mewn cyflwr da i alluogi gwaith glanhau effeithiol, a phan fo'n briodol, ddiheintio.

21. Rhaid bod gan y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd gyfleusterau toiled y gall deiliaid trwydded, staff a chleientiaid eu cyrraedd a'u defnyddio'n rhwydd.

22. Pan ddarperir cyfleusterau toiled yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, rhaid iddynt gael eu hawyru a chynnwys basn golchi dwylo sydd â chyflenwad digonol o ddŵr rhedegog (poeth ac oer neu gymysg), sebon hylif a thywelion papur wedi eu storio mewn cyflenwr.

23. Rhaid i'r weithfan lle y mae'r driniaeth arbennig yn cael ei rhoi fod â digon o le—

(a) er mwyn galluogi rhoi'r driniaeth arbennig yn ddiogel ac yn hylan, a

(b) i gynnwys y weithfan a'r cyfleusterau ar gyfer storio'n hylan gyfarpar, offerynnau a chynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer triniaethau arbennig, neu mewn cysylltiad â hwy, er mwyn osgoi'r risg o halogiad.

24. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif ddarparu pecynnau cymorth cyntaf sydd wedi ei stocio'n addas, sydd ar gael yn rhwydd ac sy'n cynnwys stoc sylfaenol o eitemau i ddiwallu anghenion cymorth cyntaf y driniaeth arbennig a roddir a nifer y deiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y digwyddiad.

25. Rhaid i'r goleuadau fod yn addas ac yn ddigonol i sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd yn gweithredu'n ddiogel ac i hwyluso gwaith glanhau a diheintio effeithiol. Pan fo angen, rhaid darparu goleuadau lleol ym mhob gweithfan i sicrhau bod y driniaeth arbennig yn cael ei rhoi yn diogel ac yn hylan.

26. Rhaid darparu awyriad digonol ym mhob ystafell yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

27. Rhaid darparu nifer addas o fasnau golchi dwylo sydd ar gael yn rhwydd yn y gweithfannau triniaethau arbennig i'w defnyddio gan y deiliaid trwydded. Rhaid i'r basnau golchi dwylo weithio'n iawn a bod mewn cyflwr da.

28. Rhaid i fasnau golchi dwylo a ddefnyddir gan ddeiliaid trwydded fod â thapiau nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw a chynnwys cyflenwad digonol o ddŵr rhedegog poeth ac oer neu gymysg, sebon hylif a thywelion papur wedi eu storio mewn cyflenwr sy'n agos i'r basn golchi dwylo.

29. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod yr holl fasnau golchi dwylo at ddefnydd y deiliaid trwydded wedi eu stocio'n llawn â sebon hylif a thywelion papur drwy gydol yr arddangosfa, yr adloniant neu'r digwyddiad.

30. Ni chaniateir defnyddio basnau golchi dwylo ond at ddibenion golchi dwylo ac elinau.

**Dihalogi, glanhau, diheintio a sterileiddio**

31. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd (neu bob rhan o'r fangre neu'r cerbyd y mae'n gyfrifol amdani) yn cael ei chadw neu ei gadw'n lân ac yn daclus drwy'r amser.

32. Rhaid gweithredu amserlen lanhau sy'n addas ac yn ddigonol ar gyfer y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

33. Rhaid darparu cyfarpar, cyfleusterau a threfniadau ar gyfer dihalogi, glanhau, diheintio a, phan fo angen, sterileiddio teclynnau gwaith, offerynnau ac eitemau eraill. Rhaid gwahanu'r ddarpariaeth hon oddi wrth fan gwaith triniaethau arbennig a rhaid iddi adlewyrchu'r triniaethau a roddir yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

34. Yn achos digwyddiad dros dro, rhaid gweithredu polisi defnydd untro.

35. Rhaid defnyddio, cynnal a gwasanaethu'r holl gyfarpar a ddefnyddir at ddibenion glanhau, diheintio neu sterileiddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a rhaid cael

cofnodion ar ffurf dogfen i ddangos bod y profion ansawdd priodol wedi eu cynnal i ddilysu defnydd y cyfarpar hwnnw.

**Gwastraff gan gynnwys offer miniog**

36. Rhaid gwneud darpariaeth addas ar gyfer casglu, storio a gwaredu gwastraff a sbwriel arall.

37. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau y darperir blwch offer miniog sy'n cydymffurfio â'r gofynion cyfredol a osodir gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ym mhob gweithfan triniaethau arbennig ac nad yw'r blwch hwnnw ond yn cael ei ddefnyddio gan ddeiliad y drwydded, neu'r deiliaid trwydded, sy'n defnyddio'r weithfan honno.

38. Rhaid darparu nifer digonol o finiau hawdd eu glanhau, nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw yn y man gwaith triniaethau arbennig a rhaid iddynt fod wedi eu hadeiladu'n briodol, a chael eu cadw mewn cyflwr da a glân.

39. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod darpariaeth addas wedi ei gwneud ar gyfer gwaredu gwastraff domestig a gwastraff clinigol nad yw'n beryglus, ac ar gyfer eu storio ar wahân.

40. Rhaid marcio tarddle (enw a chyfeiriad y busnes) yr holl wastraff clinigol nad yw'n beryglus (bagiau melyn a blychau offer miniog) cyn eu gwaredu.

41. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y gwastraff clinigol, nad yw'n beryglus yn cael ei gasglu gan gludwr gwastraff trwyddedig. Rhaid cadw cofnod o wastraff rheoledig a draddodir yn y fangre neu'r cerbyd a rhaid iddo fod ar gael i'w arolygu gan y swyddog awdurdodedig o'r awdurdod lleol.

DRAFT